Gwneud penderfyniadau amgylcheddol T891

*Patrwm cyflwyno* *O fis Mai i fis Hydref*
*O fis Tachwedd i fis Ebrill*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae llawer o benderfyniadau a gweithredoedd unigol neu gyfunol yn effeithio ar ein hamgylchedd; ond eto, mae ystyriaethau economaidd a gwleidyddol yn dominyddu'n aml. Drwy ddiffinio'r amgylchedd i gynnwys ffactorau bioffisegol, cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a ffactorau eraill, mae'r modiwl ar-lein hwn yn defnyddio fframwaith systemau i integreiddio'r amgylchedd gydag elfennau eraill wrth wneud penderfyniadau amgylcheddol mewn sefyllfaoedd cymhleth. Bydd y myfyrwyr yn archwilio achos cyfoes o wneud penderfyniadau amgylcheddol yn ymwneud â ffracio, yn ogystal ag ystod o enghreifftiau pellach yn ymwneud â dŵr, ynni, amaethyddiaeth a newid hinsawdd. Bydd y myfyrwyr hefyd yn gallu ystyried sefyllfa gwneud penderfyniadau amgylcheddol o'u dewis eu hunain, drwy lunio prosiect.

*Manyleb y person*
*Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r fanyleb gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.*

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig, neu hyfforddiant proffesiynol ffurfiol, mewn rheoli amgylcheddol neu bwnc cysylltiedig
- cefndir academaidd mewn datblygu amgylcheddol a/neu gynaliadwy mewn cyd-destunau niferus
- profiad ymarferol mewn datblygu amgylcheddol a/neu gynaliadwy mewn cyd-destunau niferus
- profiad sylweddol o ddefnyddio systemau, cysyniadau a dulliau gweithredu mewn cyd-destun ymarferol neu gyd-destun addysgu
- y gallu i greu amgylchedd dysgu diogel, adeiladol ond beirniadol i fyfyrwyr sy'n cael eu herio gan ddeunydd y modiwl
- parodrwydd i ymgymryd â'r modiwlau fel dysgwr ac i hwyluso'r hyn y mae eraill yn ei ddysgu
- ymwybyddiaeth o'ch bydolwg eich hun a pharch tuag at fydolwg pobl eraill.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu
- profiad o aseiniad yn seiliedig ar brosiect
- profiad o fodelu, gwerthuso ac ymgysylltu â materion neu sefyllfaoedd yn ymwneud â'r amgylchedd
- dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniadau amgylcheddol.

*Gwybodaeth ychwanegol*

Caiff y modiwl hwn ei gyflwyno'n gyfan gwbl ar-lein. O'r herwydd, bydd gofynion penodol, fel rhan o rôl darlithydd cyswllt, i gymryd rhan mewn ffurflenni cyfathrebu cyfrifiadurol a chynnal tiwtorialau ar-lein.

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

| | |
|---|---|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 3 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 3 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 4 |
| Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu: | 6 |